

ytafod^e

cylchgrawn cymdeithas yr iaith





yt afod

Rhifyn Gaeaf 2023

Golygyddion: Mared Llywelyn

Carol Jenkins

Osian Rhys

Dylunydd: Rhiannon Blythe

Cymru a'r Byd

Y Gymdeithas yn Cefnogi Dysgwyr

Angerdd dros leithoedd

Cymreigio Sir Fynwy

Bethan Ruth yng Ngwlad y Basg

Y Diweddaraf o'r Grwpiau Ymgyrchu

Syniadau am Nwyddau Newydd?

Gwersi Gareth Miles

Joseff Gnagbo

Elizabeth Liney

Sonny Yeung

Stephen Bale

Bethan Ruth

Jac Jolly

Angharad Tomos





Awydd cyfrannu at waith y Gymdeithas?

Rydym yn awyddus i wahodd enwau ar gyfer y swyddi isod ar Senedd y Gymdeithas.


Is-gadeirydd Cyfathrebu
cyfrifol am beiriant cyfathrebu'r Gymdeithas

Swyddog Mentrau Masnachol
cyfrifol am nwyddau a werthir gan y Gymdeithas

Swyddog Aelodaeth
cyfrifol am ein hymgyrchoedd aelodaeth a'n system aelodaeth

Swyddog Dylunio
trefnu gwaith dylunio'r Gymdeithas, gan gynnwys y Tafod

Is-gadeirydd y Grŵp Addysg
cefnogi cadeirydd y grŵp, dirprwyo yn ôl yr angen a hwyluso gwaith y grŵp



Cymru a'r Byd

Joseff Gnagbo

Fe gollodd Cymdeithas yr Iaith un o'i chewri ddechrau mis Medi yn Gareth Miles. Heblaw am ei gyfraniad amhrisiadwy fel un o sylfaenwyr a chadeiryddion y Gymdeithas, ef gyflwynodd yr egwyddor sy'n dal mor bwysig i ni – bod ein hymdrechion dros yr iaith yn rhan annatod o frwydr ehangach dros gyfiawnder cymdeithasol.

Nid dim ond geiriau crand yw'r rhain, maen nhw'n parhau'n rhan greiddiol o'n gweithredoedd o ddydd i ddydd. Mae'n hawdd i ni anghofio weithiau, ond mae ein brwydr dros degwch i'n cymunedau a'n hiaith yn debyg os nad unfath i frwydr cannoedd o bobloedd eraill ar draws y byd.

Fis Medi – yn ystod yr un penwythnos ag y cefais fy ethol – bu Jeff Smith a'n swyddog cyfathrebu newydd Owain Meirion yng Nghynhadledd ELEN ar ran Cymdeithas yr Iaith. Bu galwadau ffurfiol, unfrydol yn y gynhadledd i lywodraethau canolog Sbaen, Ffrainc a'r Eidal barchu hawliau eu dinasyddion sy'n siarad ieithoedd lleiafrifedig, boed y rheiny'n Fasgeg, Ocsitaneg, Llydaweg, neu Sardu. Yn ôl Jeff, roedd nifer yn gallu uniaethu gyda'r alwad dros Ddeddf Eiddo i ddiwygio a dylanwadu ar y farchnad dai agored a gwneud iddi weithio er budd ein cymunedau, gan iddynt dystio i broblemau tebyg iawn yn eu cymunedau nhw eu hunain.

Yn ôl yma yng Nghymru, o flaen pleidlais lwyddiannus yn y Senedd ar gynnig oedd yn cefnogi cadoeddiad yn y rhyfela yn Israel a Gaza, cawson ni'n harwain gan ein hegwyddorion rhyngwladol unwaith eto. Roedd y Gymdeithas yn un o'r 71 o

fudiadau cymdeithas sifil – ynghyd â Chyngor Mwslimiaid Cymru, Mae Bywydau Du o Bwys Caerdydd, Cymdeithas y Cymod ac CND Cymru – a lofnododd lythyr agored at y Prif Weinidog yn erfyn arno a'i Aelodau o'r Senedd i gefnogi cadoeddiad yn gyhoeddus. Er nad oes gan ein Senedd genedlaethol rôl ffurfiol o ran materion rhyngwladol ar hyn o bryd, mae dyletswydd foesol arnom i ymuno â'r corws rhyngwladol cynyddol sy'n galw am heddwch a datrysiad drwy wleidyddiaeth, nid trais.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r egwyddor o genedl noddfa, sy'n gwarchod hawliau ffoaduriaid i fyw, astudio a gweithio yng Nghymru gydag urddas. Er ei bod yn esiampl dda o gymharu â'r rhethreg sy'n dod o gyfeiriad San Steffan, yr unig siom yw nad yw hyn, yn ymarferol, yn ymestyn i bob maes polisi. Er siom miloedd ar draws Cymru, nid yw Mark Drakeford na Llywodraeth Cymru wedi bod yn fodlon hyd yn hyn i alw am gadoeddiad yn y rhyfela rhwng Israel a Gaza, fel y mae llywodraethau'r Alban ac Iwerddon eisoes wedi gwneud.

Roedd ein cynhadledd “Yr Hawl i Dai Digonol” ar ddatrysiadau i'r argyfwng tai yn y Pierhead, Bae Caerdydd fis Tachwedd yn brawf pellach o bwysigrwydd solidariaeth ryngwladol. Fe glywon ni am ddiwygiadau ar draws Ewrop gan Dara Turnbull, economegydd o Iwerddon sy'n gweithio ym Mrwsel, a gan Eduard Cabré Romans, ymgynghorydd ac arbenigwr tai o Barcelona. Ac, wrth gwrs, nod y gynhadledd oedd annog ein Llywodraeth ni i gyflwyno deddfwriaeth fyddai'n esiampl i'r byd gan ddangos bod modd creu

system dai sy'n gweithio er budd pobl, nid cyfalaf.

Rydym yn cael ein hatgoffa'n gyson ac mewn sawl agwedd felly nad oes modd gwahanu ein hymgyrch ni yng Nghymdeithas yr Iaith dros y Gymraeg a'n cymunedau oddi wrth y frwydr yn erbyn anghyfiawnder unrhyw le arall yn y byd. Rhaid i ni gofio'r egwyddor yma, a pharhau i ymdrechu i'w rhoi ar waith.



Y Gymdeithas yn Cefnogi Dysgwyr – ac yn annog aelodau i wneud yr un fath!

Ar ddechrau tymor newydd Senedd y Gymdeithas, braf yw nodi bod nifer o swyddogion y Senedd eleni wedi dysgu'r Gymraeg fel oedolion, gan gynnwys ein Cadeirydd Cenedlaethol newydd wrth gwrs.

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi cefnogi dysgwyr ar hyd y blynyddoedd drwy benwythnosau preswyl ac amryw o weithgareddau eraill, a rhai blynyddoedd yn ôl lluniodd y Gymdeithas becyn Cymunedau Byw (cymdeithas.cymru/pecyn) – pecyn ymarferol i hybu'r Gymraeg yn ein cymunedau.

Mae gan Gymdeithas yr Iaith Bwyllgor Dysgwyr sydd wrthi ar hyn o bryd yn cynllunio ar gyfer gweithgarwch i ddysgwyr dros y flwyddyn nesaf. Gan fod gan y Gymdeithas amrywiaeth o siaradwyr rhugl a siaradwyr newydd ymhlith ei haelodau, teimla'r Pwyllgor y byddai'n fuddiol hyrwyddo cynllun y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, sef cynllun Siarad sydd â'r nod o ddod â siaradwyr Cymraeg a

dysgwyr at ei gilydd i sgwrsio'n anffurfiol. Y bwriad yw cynyddu hyder dysgwyr a'u cyflwyno i gyfleoedd i fwynhau'r Gymraeg yn lleol.

Trwy fynd i dysgucymraeg.cymru/dysgu/siarad, gallwch gofrestru – fel siaradwr rhugl neu fel siaradwr newydd (canolradd+) – ac fe gewch eich paru gyda rhywun yn eich ardal. Byddwch chi a'ch partner yn gallu penderfynu wedyn sut i symud ymlaen, e.e. gallwch gwrdd am banded bob wythnos, mynd i gerdded neu fynychu digwyddiadau gyda'ch gilydd.

Dyma hanes un o'n haelodau Elizabeth Liney sy'n rhan o'r cynllun.





Elin ac Elizabeth - mae Elizabeth yn dal tarian am yr ail wobwr yng nghystadleuaeth ysgrifennu Merched y Wawr eleni.

Cymraeg yng Nghanolfan Cymry Llundain ac yn St Albans. Gyda Chofid daeth newidiadau ...

Symudodd cyrsiau Dysgu Cymraeg ar-lein ac ymunais â dosbarth wythnosol, ond roedd rhaid i fi fagu hyder i siarad yr iaith. Ymunais i â'r cynllun Siarad, ac ym mis Hydref 2020, derbyniais i neges gyfeillgar oddi wrth Dr Elin Jones, fy Mhartner Siarad, a chytunon ni i gwrdd am 30 munud ar Zoom. Fyddech chi ddim yn credu pa mor nerfus oeddwn i cyn y cyfarfod cyntaf yna! Fodd bynnag, roedd Elin yn gyfeillgar ac yn gefnogol.

Ar y dechrau buon ni'n sgwrsio am bethau syml fel digwyddiadau'r wythnos flaenorol, teulu, cathod neu ryseitiai. Bob tro roedd cacen yn ffwrn Elin! Cyn bo hir roedden ni'n siarad am awr, oherwydd ein bod ni'n mwynhau'n sgwrs am sawl diddordeb cyffredin, sef

llyfrau, materion ffydd, hanes Cymru a hanes menywod (rwyf wedi dysgu cymaint!), archaeoleg ddiwydiannol a'r Cymoedd.

Cynllun Siarad yw e, ond dim ond hanner y stori yw siarad. Mae'n rhaid i'r dysgwr wrando ar acen neu dafodiaith ryfedd, deall ac ymateb! Ond mae'n werth yr ymdrech. Mae fy hyder i ddefnyddio'r iaith ym mhob sefyllfa wedi cynyddu ganwaith.

Ni allaf i ddiolch digon i'r cynllun Siarad am roi'r cyfle i fi ac rwy'n ddyledus iawn i Elin am ei hamser, ei hanogaeth a'i chyfeillgarwch parhaol. Yn ddiweddar cwrddon ni wyneb yn wyneb am y tro cyntaf a threulio amser gwych gyda'n gilydd.

Saesnes o'r enw Elizabeth Liney wyf i, a anwyd i deulu o ddwyrain Swydd Efrog heb unrhyw gysylltiadau â Chymru. Ces i fy magu yn yr Alban. Yna, yn bedair ar ddeg oed, symudodd y teulu i Ferthyr Tudful. Treuliais bedair blynedd hapus dros ben yn ymdrochi yn niwylliant Cymru, diolch i gyfeillgarwch pobl y Cymoedd ac ethos Cymreig Ysgol Ramadeg Castell Cyfarthfa. Cawson ni ein haddysg trwy gyfrwng y Saesneg ond roedd ychydig bach o Gymraeg yn y gwasanaethau Cymraeg ddwywaith yr wythnos, ac eisteddfodau – ac roedd cân yr ysgol yn un Gymraeg.

Ym Merthyr datblygais i ddiddordebau sydd wedi aros trwy f'oes, sef cerdded, hanes cymdeithasol ac archaeoleg ddiwydiannol, ffydd ac wrth gwrs, fy nghariad at bopeth Cymreig. Roeddwn i'n dyheu am ddysgu'r iaith, ond ni ddigwyddodd hynny tan naw mlynedd yn ôl pan ddechreuais ddysgu'r iaith gyda thiwtor, awr yr wythnos, dros Skype, a thrwy fynychu cyrsiau penwythnos achlysurol yng Ngholeg Gwent. Hefyd byddwn i'n cwrdd â ffrindiau i siarad



Angerdd dros ieithoedd

Sonny Yeung

Sonny Yeung ydw i. Dw i'n ddatblygwr gwe ac yn gyfansoddwr cerddoriaeth. Roeddwn i arfer byw yn Llundain ond dw i'n dod yn wreiddiol o Hong Kong. Bellach dw i'n byw yng Ngwynedd. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers wyth mis. Yn bennaf achos dw i'n hoffi ieithoedd yn fawr! Heblaw am y Gymraeg, dw i'n siarad Cantoneg (iaith gyntaf), Saesneg, Rwsieg, Ffrangeg, Norwyeg, Swedeg, Daneg, Tsieinëeg a Corëeg.

Ymaelodais â Chymdeithas yr Iaith ym mis Medi. Roedd yn anrhydedd i mi gael fy ethol yn Swyddog y We ar y Senedd ym mis Hydref. Pam ymunais a gwirfoddoli i'r Gymdeithas? Dyma fy mhrif gymhellion.

Yn gyntaf oll, mae fy angerdd cryf dros ieithoedd gan gynnwys y Gymraeg yn fy ngyrru ymlaen. Dw i'n credu ym mhwysigrwydd cadw a hyrwyddo'r Gymraeg, sy'n cael ei hystyried yn rhan hanfodol o dreftadaeth a hunaniaeth ddiwylliannol Cymru. Mae ganddi hi hanes hir a chyfoethog sy'n dyddio'n ôl dros fil o flynyddoedd. Nid Cymru fydd Cymru heb y Gymraeg. Mae gwirfoddoli i'r Gymdeithas yn fodd o warchod a hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol Cymru.

Yn ail, dw i'n frwd dros gadw ieithoedd lleiafrifol. Mae'r Gymraeg wedi wynebu bygythiadau i'w goroesiad efo dirywiad sylweddol o iaith fwyafrifol yn yr 16eg ganrif i iaith lleiafrifol, gyda dim ond 17% o boblogaeth Cymru yn siarad Cymraeg yn 2021. Am ganrifoedd, oherwydd goruchafiaeth hanesyddol yr iaith Saesneg a diwylliant Seisnig, roedd y Gymraeg wedi wynebu ataliad a gwahaniaethu yn ystod rheolaeth Seisnig. Arweiniodd y gormes hanesyddol hwn ar yr iaith at ymdeimlad o

ymyleiddio ieithyddol a diwylliannol ymhlith y Cymry. Dw i am ymuno ag aelodau eraill i sicrhau y bydd y Gymraeg yn parhau i gael ei siarad yng Nghymru ac yn y pen draw yn dod yn iaith fwyafrifol eto.

Yn drydydd, gan fy mod i'n dod o Hong Kong yn wreiddiol, mi fedra i uniaethu â theimladau'r Cymry Cymraeg lleiafrifol. Fel Cymru, roedd ymdrech wedi bod i gadw a gwarchod hunaniaeth ddiwylliannol Hong Kong, gan gynnwys ei hiaith (Cantoneg Hong Kong), hanes, a ffordd o fyw. Roedd mudiadau gwleidyddol Hong Kong wedi ceisio ehangu ymreolaeth Hong Kong o Tsieina sydd wedi'i addo yn y Gyfraith Sylfaenol a elwir yn Gyfansoddiad Bach Hong Kong. Yn debyg i gefnogi hawliau iaith fel rhan sylfaenol o ryddid sifil yng Nghymru, mae pobl Hong Kong yn mynnu rhyddid sifil gan gynnwys rhyddid barn, ymgynnull, a barn annibynnol drwy weithredu ar lawr gwlad ac ymgysylltiad dinesig. Dyna pam dw i'n cefnogi ymgyrchoedd dros fwy o hawliau iaith i siaradwyr Cymraeg, megis eiriol dros ddefnydd dyddiol o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd gan gynnwys addysg, llywodraeth, a chyfryngau Cymru.

Yn bedwerydd, mae gwirfoddoli i'r Gymdeithas yn rhoi cyfleoedd i mi gysylltu â phobl o'r un meddylfryd sy'n rhannu eu hangerdd dros yr iaith a'r diwylliant. Mae'n creu ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch. Mae'n rhoi'r cyfle i mi ymgysylltu â'r gymuned Gymraeg ac i weithio tuag at gryfhau cymunedau lleol.

Yn bumed, ymunais â'r Gymdeithas oherwydd anfodlonrwydd â pholisïau ac arferion Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Gymraeg. Dw i'n ceisio gwrthio am newidiadau a gwelliannau ym mholisïau'r

Gymraeg.

Yn chweched, dw i'n credu mewn cenedlaetholdeb ieithyddol, sef y gred fod iaith cenedl yn ganolog i'w hunaniaeth. Yn hanesyddol, y Gymraeg oedd yr unig iaith genedlaethol yng Nghymru am ganrifoedd.

- Mae'r gred hon yn helpu i warchod hunaniaeth ddiwylliannol a hanesyddol cenedl drwy bwysleisio pwysigrwydd yr iaith frodorol. Mi fedr hyn fod yn hollbwysig er mwyn cynnal traddodiadau a gwerthoedd diwylliannol unigryw.
- Mi fedr iaith gyffredin fod yn gymorth i feithrin undod a chydlynad cymdeithasol o fewn cenedl. Mi fedr hwyluso cyfathrebu, dealltwriaeth, ac ymdeimlad o berthyn i hunaniaeth ddiwylliannol a chenedlaethol a rennir.
- Mi fedr iaith genedlaethol safonol wella cyfathrebu a hybu gweinyddiaeth effeithlon, gan ei bod yn lleihau rhwystrau iaith o fewn gwlad. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer llywodraethu, addysg a busnes.
- Mi fedr iaith genedlaethol safonol hybu datblygiad economaidd, masnach a buddsoddiad, gan ei bod yn symleiddio trafodion busnes ac yn annog buddsoddiad tramor.

Heb os, mi fedr cenedlaetholdeb ieithyddol arwain at allgau, gwahaniaethu, a gwrthdaro o ran hawliau ieithoedd lleiafrifol. Dyna pam mae angen i ni gael cydbwysedd rhwng hybu iaith gyffredin a pharchu amrywiaeth ieithyddol a hawliau lleiafrifoedd ieithyddol.

Yn olaf, mae'r Gymdeithas yn cynnig adnoddau a chefnogaeth ar gyfer dysgu a defnyddio'r Gymraeg, a'm denodd er mwyn gwella fy sgiliau Cymraeg. Trwy gyfarfodydd ac ymgyrchoedd, mi fydd gen i lawer o gyfleoedd i'w defnyddio a gwella fy

Nghymraeg.

Gobeithio y bydd mwy a mwy o bobl yn ymuno ac yn gwirfoddoli gyda'r Gymdeithas i warchod a hybu'r Gymraeg, ac y byddwn ni yn gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru.



Cymreigio Sir Fynwy, un arwydd ar y tro!

Stephen Bale

Siŵr o fod yn yr ardaloedd lle mae Cymraeg ar ei chryfaf does dim llawer o angen i bobl edrych ar gywirdeb yr iaith yn gyhoeddus – ar arwyddion, adeiladau ac ati. Tasai camgymeriadau mewn sillafu, er enghraifft, mae mwy na digon o aelodau o'r cyhoedd i dynnu sylw swyddogol – cynghorau, awdurdodau ffyrdd, pwy bynnag – atynt a'u cywiro'n reit gyflym.

Ond mewn ardaloedd di-Gymraeg fel sydd yma yn sir Fynwy mae'r sefyllfa yn wahanol. Does dim llw o bobl Gymraeg i wirio, i gywiro, i sicrhau cywirdeb, i gwyno. Ni fyddai'r mwyafrif o bobl hyd yn oed yn sylwi os oes arwyddion Cymraeg, heb sôn am yr hyn sydd arnynt.

Diolch byth, felly, bod yna griw bach o Gymry Cymraeg yn ne'r sir – yn benodol ym mhentrefi cyfagos Magwyr a Gwndy rhwng Gasnewydd a Chasgwent – nifer ohonynt o ardaloedd eraill mwy Cymraeg yn wreiddiol, sy'n cefnogi a defnyddio'r iaith er mwyn sicrhau lle mor amlwg â phosibl iddi yn y gymuned hon. Nid peth hawdd yw hyn.

Mae'n holl bwysig bod yr un fath o beth sydd gyda ni yma yn digwydd ymhobman lle mae'r Gymraeg yn dueddol o stryffaglu am ei statws iawn, ac o leia mae ein profiad ni yn dangos bod newid yn bosibl. Ym Magwyr/Gwndy, mae hwb cymunedol newydd sbon (Magor & Undy Community Hub yn Saesneg, neu MUCH) lle mae popeth ar yr arwyddion yn ddwyieithog ac mae popeth ar y wefan hefyd i fod i yn ddwyieithog.

Am nad oes siaradwyr Cymraeg ymysg y rheolwyr, roedd rhaid i rywun wirfoddoli i helpu gyda'r cyfieithiadau, a dyna beth sydd wedi digwydd. Rydym ni sydd â'r Gymraeg

yn falch iawn o weld yr hyn sy'n gallu digwydd hyd yn oed yma yn sir Fynwy. Y neges yw bod angen i'r Cymry Cymraeg i ddefnyddio eu gwybodaeth i sicrhau bod yr iaith yn cael ei defnyddio yn gywir; nid ydym ni yn yr ardal hon o Gymru yn haeddu llai na'r hyn sydd yn y gorllewin neu'r gogledd.

Does neb arall a fyddai'n fodlon neu'n gallu gwneud hyn wedi'r cwbl. Ar wahân i'r Hwb, mae Cyngor Dref Magwyr a Gwndy newydd osod arwyddbyst pres smart iawn trwy'r pentrefi yn cyfeirio at lefydd lleol o ddiddordeb – yn anochel gyda'r un camgymeriadau ar bob un ohonynt: 'Perlian Ganoloeso' i gyfeirio at y berllan ganoloesol, safle hynafol go iawn, sydd yn agos i'r Hwb. Ar ochr arall yr Hwb, mae'r arwydd dal yn dweud 'Perlian' ond gyda 'Ganoloesol' yn




Stephen Bale wrth yr arwydd coll.

Does neb arall a fyddai'n fodlon neu'n gallu wneud hyn wedi'r cwbl. Ar wahân i'r Hwb, mae Cyngor Dref Magwyr a Gwndy newydd osod arwyddbyst pres smart iawn trwy'r pentrefi yn cyfeirio at lefydd lleol o ddiddordeb – yn anochel gyda'r un camgymeriadau ar bob un ohonynt: 'Perlian Ganoloeso' i gyfeirio at y berllan ganoloesol, safle hynafol go iawn, sydd yn agos i'r Hwb. Ar ochr arall yr Hwb, mae'r arwydd dal yn dweud 'Perlian' ond gyda 'Ganoloesol' yn gywir.

Chwarae teg i glerc y cyngor: yn syth ar ôl tynnu ei sylw at y camgymeriadau roedd mewn cyswllt â'r contractwyr ac mae'r rhannau anghywir ar yr arwyddion wedi eu tynnu er mwyn eu cywiro. Mae bwch lle oedd 'Perlian Ganoloeso' ar hyn o bryd. Ond dyma'r pwynt: heb Gymry Cymraeg i fod yn wyliadwrus a gwneud yr ymdrech, byddai'r arwydd yn dal i fod yn anghywir, yn hyllbeth a dweud y gwir.

Canlyniad dros yr iaith, felly? Mewn ffordd, ond mae cymaint o gamgymeriadau ar arwyddion eraill yn yr ardal ac mae'n gallu ymddangos bron yn amhosibl cywiro popeth. Dyw hi ddim yn ormod i ofyn am Gymraeg gywir yng Nghymru, ydy hi, hyd yn oed yn ein cornel fach ni.

Rhaid i'r frwydr barhau.



Bethan Ruth yng Ngwlad y Basg

Aeth Bethan Ruth i gynhadledd HIGA yng Ngwlad y Basg ganol Gorffennaf, cynhadledd ar gyfer ymgyrchwyr iaith dan 35 oed o bob rhan o'r byd. Roedd cynrychiolwyr o 75 iaith leiafrifol yno, gan gynnwys Nahuat o El Salvador, Okinaweg o De Siapan a Tyep o Ddwyrain Nigeria. Dyma ei phrofiad yn ei geiriau hi.

Yno cafwyd sesiynau ar bob math o themâu gan gynnwys sut mae ymgyrchu dros eich iaith yn cydblethu gyda phynciau ym myd iechyd meddwl a seicoleg, ynghyd â chroestoriadedd.

Croestoriadedd (*intersectionality*) yw'r syniad bod yna natur ryng-gysylltiedig yn y mathau o wahaniaethu a gorthrwm ar sail gwahanol gategorïau e.e. hil, dosbarth, a rhywedd fel y maent yn berthnasol i unigolyn neu grŵp penodol. Mae menyw ddu, er enghraifft, yn cael profiad o rywiaeth (sexism) ac o hiliaeth. Ond nid yn unig profir ddwy ormes ar wahân wnaiff hi, ond profir naill wedi'i phlethu drwy'r llall, fel hiliaeth rywiaethol a rhywiaeth hiliol. Gorthrwm sy'n gorgyffwrdd ac yn rhyng-ddibynnol. Kimberlé Williams Crenshaw fathodd y term 'intersectionality' er mwyn dadansoddi a mynnu newid i brofiadau menywod du.

Mae sawl math o ormes yn y byd sy'n chwarae rhan yn ein bywyd dydd i ddydd yma yng Nghymru – mae enghreifftiau o rai o'r mathau cyffredinol o systemau gormes isod ac enghreifftiau o fraint a gorthrwm oddi fewn iddynt:

Math o wahaniaethu	Braint	Gorthrwm
Rhyweddiaeth (Genderism)	Gwryw a masciwlin Benyw a ffeminin	Gwryw a ffeminin Benyw a masciwlin
Androganoliaeth (Androcentrism)	Gwrygw	Benyw
Hiliaeth (Racism)	Gwyn	Pobl o liw
Ewroganoliaeth (Eurocentrism)	O dras Ewropeaidd	O dras sydd ddim yn Ewropeaidd
Heterorywiaeth (Heterosexism)	Heterorywiol	Lesbiaidd, hoyw, deurywiol
Abiliaeth (Ableism)	Pobl heb anableddau	Pobl gydag anableddau
Elitiaeth (Elitism)	Llythrennog iawn a gyda gwiwcred (credentials)	Anllythrennog, heb wiwcred (credentials)
Oedraniaeth (Ageism)	Ifanc	Hen
Gwleidyddiaeth golwg (Politics of appearance)	Deniadol	Anneniadol
Tuedd dosbarth (Classism)	Dobarth uwch a chanol-uwch	Dosbarth gweithiol, tlawd
Tuedd iaith (Language bias)	Saesneg fel iaith gyntaf	Saesneg fel ail iaith

Lliwiaeth (Colourism)	Golau	Tywyll
Gorthrwm Crefyddol (Religious Oppression)	Yn dilyn crefydd y mwyafrif	Yn dilyn crefydd y lleiafrif
Pro-nataliaeth (Pro-natalism)	Ffrwythlon	Anffrwythlon

Cyflwynodd y Fasgwraig Lorea Agirre ddarlith a oedd yn tynnu llawer ar waith Lakoff (*Language and a woman's place 1973*) a oedd yn dadlau bod menywod a dynion yn defnyddio'r Saesneg mewn ffyrdd gwahanol.

Ynghyd â hyn mae'r ffordd rydyn ni'n siarad ein hieithoedd lleiafrifedig wedi cael ei rhyweddu (*genderised*) hefyd, e.e. byddai ieithwedd wedi datblygu o ran sut i gymdeithasu mewn gofodau traddodiadol gwrywaidd fel chwaraeon neu weithio mewn chwarel o gymharu â ieithwedd gofodau traddodiadol benywaidd fel gweithgareddau dawns neu ddomestig.

Soniodd hi am y paradimau rhwng deinameg iaith a rhywedd, e.e. Mae gan iaith leiafrifedig nodweddion mwy ffeminin ac mae gan iaith ddominyddol nodweddion mwy masciwlin.

Benywaidd/Ffeminin: emosiynol, mwy caredig

Gwrywaidd/Masciwlinaidd: awdurdodol, ymosodol

Yn draddodiadol, menywod sy'n dueddol o drosglwyddo iaith oddi fewn y teulu yn rhyngwladol am fod hynny'n perthyn i'r sffêr ddomestig tra bod dynion yn fwy tueddol o ddefnyddio'r iaith ddominyddol. Mae hyn oherwydd statws a chyfeleon gwaith. Rhannwyd enghreifftiau o brofiad o Fecsico lle byddai bechgyn yn cael eu dewis i fynd i'r ysgol petai rhaid i rieni ddewis pa blant i'w gyrru i'r ysgol – a byddai'r addysg honno drwy'r iaith ddominyddol, Sbaeneg.

Cafwyd enghraifft wrthgyferbyniol o hyn, gan sôn am sut roedd menywod yn Sardinia yn dueddol o ffafrio cyfathrebu mewn Eidaleg yn hytrach na Sardu. Yr esboniad am hyn oedd am mai nhw fyddai wedi bod y genhedlaeth gyntaf o fenywod yn Sardinia fyddai wedi gadael y cartref a mynd i weithio yn y sffêr gyhoeddus. Roedd arnynt eisiau statws mewn sefyllfa ddieithr a newydd, ac

felly'n defnyddio'r iaith dominyddol Eidaleg yn lle'r iaith leiafrifoledig Sardu.

Roedd Agirre eisiau nodi pwysigrwydd sylweddoli, er ein bod yn siaradwyr ieithoedd lleiafrifedig a bod hynny'n ein rhoi mewn 'blwch' o gael ein 'gorthrymu', ein bod ni i gyd â breintiau hefyd, ac nad ydy hi'n ddarlun du a gwyn o ran pwy sy'n gorthrymu a phwy sy'n orthymedig.

Pwysleisiodd hi bwysigrwydd estyn llaw allan i eraill sy'n profi gorthrwm fel rhan o'n hymgyrchu dros ein hieithoedd. Canmolwyd ymgyrchwyr y Catalaneg am wneud cynnydd mawr yn creu cynghreiriau croestoriadol drwy brosiectau fel *Prollema* sy'n annog mudwyr ifanc i Sbaen sydd mewn risg o sefyllfaoedd argyfyngus (e.e. digartrefedd, diweithdra a diffyg cyfeleon addysg) i ddod yn athrawon eu ma-mieithoedd. Canmolwyd prosiect Bizipoza gan ymgyrchwyr iaith Basgeg hefyd, sy'n rhoi llais i deuluoedd a chymdeithasau sy'n profi anawsterau amrywiol ychwanegol yn y Fasgeg, e.e. teuluoedd Basgeg sydd â phlant anabl.

Er nad yw'r cysyniadau hyn yn ddieithr i ymgyrchu Cymdeithas yr Iaith wrth gwrs, sydd wedi cydsefyll gyda llawer o grwpiau dros y degawdau, o streic y glowyr i'r gymuned LHDT ac, yn fwy diweddar, ffoaduriaid, da fyddai ystyried sut gallwn ni wneud mwy i sicrhau bod pobl yn gallu byw a bod fel y dymunant – boed hynny'n siarad a defnyddio eu hiaith, caru pwy maent eisiau caru, bod eu gwir nhw eu hunain, yr hawl i hunan-benderfyniad a hunaniaeth.

Hyn oll gan barhau i weithredu'n ddi-drais mewn ffyrdd creadigol ac ystyriol dros y Gymraeg a chymunedau Cymru fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid.

Grŵp Cymunedau

Cynhadledd yr Hawl i Dai Digonol – Beth sy'n Bosib

Ar 16 Tachwedd fe wnaethon ni dynnu ynghyd bobl sy'n gweithio ym maes tai, gwleidyddion, y rhai sy'n creu polisi a siaradwyr rhyngwladol er mwyn trafod

posibiliadau ar gyfer tai yng Nghymru, ac er mwyn pwysu i gynnwys ein galwadau am Ddeddf Eiddo ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth a gyhoeddir yn 2024.

Mae'n cynigion ni ar gyfer Deddf Eiddo wedi eu diweddarau er mwyn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ddarparu datrysiadau tai ac er mwyn rhoi mwy o rym yn nwylo ein cymunedau i greu eu datrysiadau eu hunain.

Mae cyflwyniadau a gwybodaeth y gynhadledd i'w gweld ar ein gwefan:

<https://cymdeithas.cymru/cynhadleddtai>.



Camau nesaf

Byddwn ni'n trafod cynlluniau ar gyfer yr ymgyrch am Ddeddf Eiddo ac ymgyrch Nid yw Cymru ar Werth yn yr wythnosau nesaf - cysylltwch gyda Jeff, Cadeirydd y Grŵp Cymunedau, am ragor o wybodaeth: jeff@cymdeithas.cymru



Taith Deddf Eiddo

Yn ystod y dyddiau'n arwain at ein cynhadledd tai yng Nghaerdydd, aethon ni ar daith drwy Gymru gan alw gyda chymunedau sydd naill ai'n profi problemau'r drefn tai bresennol neu enghreifftiau o bethau sy'n digwydd yn lleol i rymuso cymunedau. Casglwyd tystiolaeth fideo gan y cymunedau hynny i'w dangos yn ystod sesiwn agoriadol y gynhadledd.

Daeth hi'n amlwg o dystiolaeth ein cymunedau na all y drefn bresennol na'r farchnad agored ddarparu cartrefi i bawb.

Gall y cymunedau siarad drostyn nhw eu hunain - gwylwch yma: <https://t.ly/ioFKz>







RHYBUDD COSB

**YDYCH CHI WEDI
CAEL DIRWY
UNIAITH SAESNEG
AC YN GWRTHOD EI
THALU?**

**GADEWCH I NI
WYBOD YM MHLE...**



WWW.CYMDEITHAS.CYMRU

Grŵp Hawl i'r Gymraeg

Mae mwy o bobl yn mynnu hysbysiad cosb gan gwmnïau parcio yn Gymraeg, ac yn gwrthod talu nes eu cael yn Gymraeg. Dal i fynnu nad oes rhaid darparu unrhyw wasanaeth Cymraeg mae'r cwmnïau – a dal i fynnu eu harian!

Rydyn ni wedi paratoi gwybodaeth am sefyllfa a hawliau unrhyw un sydd wedi derbyn hysbysiad cosb parcio a beth gall cwmnïau parcio wneud (neu beth na allan nhw wneud), wedi i ni dderbyn cyngor a barn cyfreithiol am y sefyllfa. Mae'r cyfan ar ein gwefan: cymdeithas.cymru/rhybudd-i-feysydd-parcio-preifat.

Rydyn ni'n awyddus i gefnogi unrhyw un sy'n gwrthod talu hysbyseb cosb parcio felly cysylltwch gyda'r swyddfa os ydych chi'n gwrthod talu am barcio neu'n gwrthod talu hysbysiad cosb: post@cymdeithas.cymru / 01970 6240501.

A beth am HSBC, sydd wedi penderfynu dod â gwasanaeth ffôn Cymraeg i ben? Mae'r banc wedi bod yn glir mewn neges at yr Aelod o'r Senedd, Sian Gwenllian, bod y penderfyniad wedi ei wneud ac nad oes bwriad ail-ystyried.

Fel y rhan fwyaf o fanciau, mae'r HSBC wedi cau canghennau ar draws Cymru felly dyma'r cam diweddaraf i orfodi pobl i ddefnyddio gwasanaeth Saesneg. Y dewis fydd gwasanaeth ffôn Saesneg neu wasanaeth Saesneg ar-lein. Does dim un banc yn cynnig gwasanaeth bancio ar-lein yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Mae'n amlwg bod angen cryfhau'r mesur iaith er mwyn gorfodi cwmnïau fel hyn i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn Gymraeg.

Grŵp Addysg

Mae deng mlynedd wedi mynd ers cyhoeddi adroddiad Sioned Davies, *'Un Iaith i Bawb'*, oedd yn argymhell cael gwared ar Gymraeg ail iaith a chreu un continwrm o ddysgu Cymraeg i bawb.

Rydyn ni wedi gweld degawd o din-droi gan y Llywodraeth ers hynny, ac yn y cyfnod yna mae 142,351 o ddisgyblion wedi cael gradd TGAU Cymraeg Ail iaith, a'r mwyafrif llethol ohonyn nhw'n gadael yr ysgol heb allu siarad Cymraeg yn hyderus.

Wrth gyflwyno adroddiad blynyddol y Llywodraeth ar strategaeth Cymraeg 2050, fe wnaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles, ddweud ei fod e a'r Llywodraeth eisiau i bob un adael yr ysgol yn siarad y Gymraeg yn hyderus, cyn dweud ei bod yn bwysig bod "dewis" ar gael rhwng astudio mewn ysgol Gymraeg neu beidio.

Wrth gwrs, mae wedi ei hen sefydlu mai addysg cyfrwng Cymraeg yw'r unig ffordd o sicrhau siaradwyr hyderus, ac mae'r nifer sy'n dilyn Cymraeg ail iaith ond sy'n gadael y system addysg heb allu siarad Cymraeg yn hyderus yn cadarnhau bod angen gwednewid y system yn llwyr. Yr ateb yw rhoi pob ysgol ar lwybr i fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, gan gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob ysgol dros amser fel bod pob plentyn yn gadael yr ysgol yn hyderus eu Cymraeg.

Mae disgwyl i Fil Addysg Gymraeg y Llywodraeth gael ei gyhoeddi yn gynnar flwyddyn nesaf. Dyma'r cyfle mawr i sicrhau ein bod yn gosod nod uchelgeisiol ar gyfer 2050, sef bod pob un plentyn yn y wlad yn cael addysg Gymraeg. Os yw'r ewylllys wleidyddol yno, gallwn weddnewid ein cyfundrefn addysg mewn cenhedlaeth a sicrhau bod y Gymraeg wir yn perthyn i bawb. Y nod yw addysg Gymraeg i bawb – a dim llai.

Grŵp Dyfodol Digidol

Datganoli darlledu yn ôl ar yr agenda wleidyddol

Owain Meirion

Ers y fuddugoliaeth fawr i'r ymgyrch i sefydlu S4C yn 1980, mae twf darlledu yng Nghymru yn gyffredinol wedi bod yn segur iawn. Mae gan Gatalaneg a Basgeg bedair neu bump sianel yn eu hieithoedd brodorol, er enghraifft. Mewn maes sydd mor bwysig i'n hiaith, ein diwylliannau a'n democratiaeth, mae hi'n rhyfeddol nad yw'n cael sylw dyledus. Mae'n ymddangos fel petai hynny'n dechrau newid.

Fis Awst, cyhoeddwyd adroddiad y darlledwr Melanie Doel a'r Athro Elin Haf Gruffydd Jones ar ddarlledu yng Nghymru, un a gomisiynwyd yn annibynnol gan y Llywodraeth. Roedd yn arwyddocaol dros ben, gan iddo gydnabod pa mor bwysig yw darlledu i'n gwlad, pa mor fregus yw ein sefydliadau ar hyn o bryd (yn bennaf, ariannu S4C), a'r angen i gymryd y camau cyntaf yn y broses o drosglwyddo cyfrifoldeb dros ddarlledu o San Steffan i Fae Caerdydd.

Penllanw hyn, yn ôl adroddiad Doel Jones, fyddai sefydlu 'Awdurdod Cyfathrebu a Darlledu Cysgodol i Gymru', sefydliad fyddai'n mabwysiadu swyddogaeth Ofcom o ran rheoleiddio darlledu a chyfathrebu a chynnig cyngor i'r Llywodraeth. Argymhellodd yr adroddiad y dylid ei sefydlu o fewn 12 mis. Er nad yw'n ymddangos yn egsotig iawn, mae ei arwyddocâd yn enfawr. Byddai'n gosod y ffordd a chreu potensial i ni wir drawsnewid sefyllfa darlledu yng Nghymru, gan gynnwys darlledu Cymraeg wrth gwrs.

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi datgan ei bod o blaid datganoli'r maes. Mae'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru yn datgan bod angen gwneud hynny er mwyn "mynd i'r afael â'n pryderon ynghylch elfennau bregus yn y cyfryngau ar hyn o bryd a'r ymosodiadau ar eu hannibyniaeth."

Er siom, mae'r Llywodraeth fel petai wedi anghofio'r ymrwymiad yma erbyn hyn. Yn ddi-ffael, mae wedi llunio datganiad ar ôl datganiad yn dweud ei bod ystyried canfyddiadau'r adroddiad hanesyddol. Rydym yn disgwyl ymateb ffurfiol i'r adroddiad cyn diwedd y flwyddyn, unwaith y bydd brwydro mewnol y Blaid Lafur dros eu barn o'r adroddiad wedi dod i ben. Mae dewis clir i Lafur Cymru: bod yn geidwadol a derbyn y sefyllfa anobeithiol fel y mae, neu weithredu i gryfhau cyfryngau Cymru er lles pawb.

Y frwydr nawr yw sicrhau bod datganoli darlledu nid yn unig yn parhau ar yr agenda wleidyddol a bod yr achos yn cael ei wneud yn gadarn, ond bod y ddadl yn cael ei hennill a bod y Llywodraeth yn gweithredu'n gadarnhaol i weithredu'r argymhellion.

Mae'r Gymdeithas yn barod yn weithgar yn y frwydr. Drwy geisiadau rhyddid gwybodaeth ac yn dilyn stori amheus ofnadwy gan Newyddion y BBC a BBC Cymru Fyw nad oedd bwriad gan y Llywodraeth i ddilyn cynigion adroddiad Doel Jones, canfuwyd tystiolaeth i

awgrymu bod y BBC yn ymgychu i danseilio'r adroddiad.

Mae pwysau'n dod o sawl cyfeiriad. Ddiwedd mis Tachwedd, anfonwyd llythyr agored at ddirprwy weinidog y celfyddydau, chwaraeon a thwristiaeth i fynnu gweithredu ar argymhellion adroddiad Doel Jones. Llofnodwyd y llythyr gan enwau mawr yn y byd darlledu, gan gynnwys yr Athro Tom O'Malley, Dr Elaine Price, y cynhyrchydd annibynnol Meic Birtwistle, Dafydd Iwan, Julie Barton, cyn-olygydd BBC Radio Wales, a'r Athro Richard Wyn Jones.

Mae'r ddadl dros ddatganoli darlledu yn ddadl dros ddyfodol ein hiaith, ein gwlad a'n democratiaeth. Mae'n gwbl amlwg bod briwsion y gyfundrefn ddarlledu Lundeinig yn hollol anaddas i wasanaethu Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain, ac mae cyfle gan ein Llywodraeth i ddechrau creu cyfundrefn addas, o'r diwedd, drwy sefydlu awdurdod darlledu yng Nghymru, i Gymru.

Syniadau am nwyddau newydd?

Sut ydych chi'n teimlo am y nwyddau mae'r Gymdeithas yn eu gwerthu? Oes gennych chi syniadau am y math o bethau dylai'r Gymdeithas fod yn eu gwerthu? Neu syniadau eraill am ffyrdd o greu incwm?

Mae'r Grŵp Codi Arian wrthi'n cynllunio ar gyfer nwyddau newydd i'r flwyddyn nesaf ar hyn o bryd. Pam na wnewch chi gysylltu felly a rhannu eich syniadau? Neu gwell fyth, dewch i gyfarfod o'r Grŵp Codi Arian i gyfrannu at y drafodaeth. Rydym bob amser yn chwilio am syniadau newydd gwreiddiol ar gyfer nwyddau i'w gwerthu.

Cysylltwch felly!

Jac Jolly, Swyddog Codi Arian
jac@cymdeithas.cymru

Gwersi Gareth Miles

Angharad Tomos

Yn y ddrama *A Man For All Seasons* gan Robert Bolt, mae Richard Rich (a ddaeth wedyn yn Arglwydd Ganghellor) yn fachgen ifanc uchelgeisiol ac mae'n cael cynnig i fynd yn athro. Mae'n siomedig, ac yn siarad â Thomas More.

MORE: You'd be a fine teacher. Perhaps a great one.

RICH: And if I was, who would know of it?

MORE: You, your pupils, your friends, God. Not a bad public.

Mae'r geiriau hyn wedi aros efo mi, ac mae'r dylanwad gaiff athro neu athrawes ar berson ifanc yn gallu bod yn aruthrol. Mi fûm i'n ddigon ffodus i gael Gareth Miles yn athro Saesneg pan ron i'n bymtheg oed. Doedd Ysgol Dyffryn Nantlle mo'r ysgol hawsaf i fod yn athro ynddi, hyd yn oed yn y Saithdegau. Roedd hi'n ysgol hynod hen-ffasiwn, a'r addysg yn gwbl Seisnig, a dwi'n amau mai siomedig oedd y profiad i Gareth.

Be wnaethon ni blant o'r athro newydd hwn? Roedd o'n bendant yn wahanol. Roedd sôn ei fod yn ymwneud â phethau peryglus fel Cymdeithas yr Iaith. Tu ôl i'w sbectol drwchus, roedd golwg flin arno. Bob dydd lau, byddai'r gwasanaeth boreol yn Saesneg, ac un o'r emynau a genid oedd 'I vow to thee my country.' Byddai'r athrawon ar y llwyfan yn wynebu'r plant, ac yng ngwydd pawb, byddai Mr Miles yn gwrthod canu'r emyn! Roedd athro oedd yn gwrthod cyd-ymffurfio yn brofiad chwyldroadol. Dyna'r peth cyntaf a gofias am Gareth Miles, roedd o'n peri i chi gwestiynu.

Am wn i, cael pobl ifanc i gwestiynu yw'r peth pwysicaf y gall athro ei wneud. Dewisais astudio Saesneg fel cwrs Lefel A, ac mi agorodd Mr Miles fy meddwl a'm golygon. Fydde fo ddim yn dal yn ôl wrth ein herio. Doeddwn i ddim yn cael hyn yn hawdd ar y pryd, gan fy mod yn berson go bengaled.

Ron i'n berson rhamantaidd hefyd, ac wedi ffoli yn llwyr ar *Wuthering Heights* ac Emily Brontë. Sgwennais draethawd yn mwyydro am fywyd caled yr awdures a'i chefnidir. Doedd Mr Miles ddim yn gweld hyn yn berthnasol. "Rhaid i'r gwaith sefyll ar ei draed ei hun. 'Run llinyn mesur ydi o hyd yn oed tase Emily Brontë wedi ei magu ar stad dai ym Milton Keynes'" meddai. Dadlau'n ffyrnig efo fo nes i, ond cofiais ei gyngor.

Cofias ei daerineb. Byddai dadleuon yn codi drwy'r amser, ac roedden ni blant yn gynulleidfa heriol. Fyddwn i ddim yn cytuno efo fawr ddim o'i ddadleuon. Diawch, roedd pawb yn gwybod ei fod yn Gomiwnydd! Un dydd, edrychodd Mr Miles drwy'r ffenest ar yr olygfa ysblennydd o Gwm Silyn a Chwm Dulyn. Falle mai yng nghanol Paradise Lost oeddai ni i fod, ond aeth y sgwrs i gyfeiriad arall. "Beth bynnag am harddwch y lle ma, fasa yn well gen i weld coblyn o ffatri fawr yma." I mi, oedd wedi fy magu ar ramantiaeth Williams Parry, roedd hyn yn gabledd, a dywedais fy marn. Byddai ffatri yn difetha'r lle yn llwyr. "Gwaith mae'r lle 'ma ei angen" meddai Mr Miles. "Rhaid cael gwaith i gadw pobl yma. Waeth i chi heb a chael dyffryn hardd a neb yn byw yma." Dadlau'n ffyrnig nes i unwaith eto, ond cofiais ei safbwynt.




Daethom i barchu'n gilydd. Cofiaf fo'n prynu Tafod y Ddraig yn ystafell yr athrawon wrth i mi fynd o amgylch i'w gwerthu. Soniodd o rïoed ei fod yn gyn-Olygydd. Bu'n fy annog i sgwennu. Mae ei restr ddarllen y gofynnais amdani dal gen i. Y llyfr cyntaf yw 'Y Maniffesto Comiwnyddol', yr ail yw 'The Wretched of the Earth' Frantz Fanon – nid y math o lyfrau mae athrawon yn arfer eu cymell i ddisgyblion. Do, agorodd ddorau fy meddwl led y pen a gadael i syniadau cwbl newydd hyrddio drwyddynt.

Ond gwers fwyaf Mr Miles oedd bod yn gyson, a chadw at ddaliadau, yn wyneb pob her. Gwelais bobl yn newid eu côt, yn colli gobaith, yn suro, yn colli gafael ar ddelfryd. Ond nid Gareth Miles. Safodd yn gadarn, fel cloc wyth niwrnod, yn dal i ganu'r gloch, yn dal i gredu. Ysgrifennodd, areithiodd, cyfansoddodd ddramâu a rhaglenni teledu, a thrwy'r cyfan mae gweledigaeth fawr a chariad at ddynoliaeth. Byddwn yn ei weld

ymhob Steddfod, ac roedd y berthynas disgybl-athro yn dal yno, – fo'n traethu, minnau'n gwrando. Ond yr oedd yr olwg tu ôl i'r sbectol yn llai blin. Bu'n gyson ei gefnogaeth i'm sgwennu, hyd y diwedd un. A chollodd o mo'i synnwyr digrifwch.

Mae person ifanc yn cofio athro da am byth.







y tafod
gaeaf 2023